

**Asemiadau Safle Ecolegol o
Safleoedd Ymgeisydd
Sir Fynwy
2021
Crynodeb Gweithredol**

Er mwyn llywio'r broses o ddyrannu a chyflawni safleoedd ymgeisiol drwy broses y CDLI, yn unol â pholisi a deddfwriaeth berthnasol, mae Cyngor Sir Fynwy yn gofyn am gyflwyniad gwybodaeth ecolegol sylfaenol. Paratowyd y fethodoleg hon er mwyn sicrhau bod dull cyson o ymdrin â'r cyflwyniad hwn a bod ansawdd y wybodaeth a ddarperir yn ddigonol.

Bydd Arfarniadau Safleoedd yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad ac yn disgrifio gwerth ecolegol presennol safleoedd arfaethedig y CDLI, yn seiliedig yn bennaf ar arolwg botanegol ond gan ystyried rhywogaethau posibl eraill a warchodir, neu a allai fod yn bresennol. Rhaid asesu safleoedd hefyd am eu potensial i gymhwyso'n gyfan gwbl neu'n rhannol fel Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur, gan ddefnyddio'r Canllawiau ar gyfer Dethol Safleoedd Bywyd Gwyllt yn Ne Cymru a addaswyd ar gyfer Sir Fynwy (ar gael ar wefan Cyngor Sir Fynwy).

Yn dilyn yr arfarniad safle, rhaid gwerthuso statws neu effaith bosibl ar fioamrywiaeth y safle a'i ddsbarthu naill ai fel: Gwerth uchel, canolig neu isel. Caiff y statws hwn ei sicrhau a'i wirio gan Gyngor Sir Fynwy drwy'r Broses Asesu Safleoedd Ymgeisiol cyn y Cynllun Adneuo.

Bydd angen hefyd defnyddio gwybodaeth a gesglir o Asesiad Cysylltedd Cyngor Sir Fynwy (sydd ar gael ar wefan Cyngor Sir Fynwy) i helpu i lywio gwerth cyffredinol Safleoedd Ymgeisiol arfaethedig y CDLI.

Yn unol â pholisi a deddfwriaeth, bydd arfarniadau safleoedd yn cynnwys gwelliannau ecolegol y gellid eu cyflawni drwy ddatblygu gan gynnwys cyfleoedd cysylltedd ecolegol yn unol â'r llythyr 'Annwyl Brif Swyddog Cynllunio' dyddiedig 23/10/2019¹.

Yn ogystal â hyn, rhaid darparu data Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol ar ffurf ffeiliau ffurf er mwyn darparu cynrychiolaeth weledol o statws ecolegol pob safle. (Mae nodyn cyfarwyddyd ar y gofyniad hwn ar gael ar dudalennau gwe'r CDLI ar wefan y Cyngor, sy'n ymwneud ag asesiadau safleoedd ecolegol Safleoedd Ymgeisiol.)

Os ydych wedi paratoi asesiad safle ecolegol yn 2019 neu 2020 yn unol â'r fethodoleg hon, gellir ei ddefnyddio ar gyfer eich cyflwyniad yn 2021.

¹ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/sicrhau-gwelliannu-i-fioamrywiaeth.pdf>